# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 4

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## PENNOD 2

GWELLA LLESIANT LLEOL

*Asesiadau llesiant lleol*

VALID FROM 01/04/2016

### 37 Asesiadau llesiant lleol

(1) Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal.

(2) Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi'r asesiad ymhen dim mwy na blwyddyn cyn y dyddiad y mae cynllun llesiant lleol i'w gyhoeddi o dan is-adran (6) neu (7) o adran 39.

(3) Rhaid i asesiad—

- (a) pennu'r ardaloedd r cymunedol sy'n ffurfio ardal y bwrdd;
- (b) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol ac yn yr ardal yn ei chyfanrwydd;
- (c) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant y bobl yn yr ardal;
- (d) cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach y mae'r bwrdd yn ei gynnal drwy gyfeirio at feini prawf a osodir ac a gymhwysir ganddo at ddiben asesu

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 37. (See end of Document for details)*

llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal neu mewn unrhyw gymuned o fewn yr ardal;

(e) cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol ar gyfer y dyfodol yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal;

(f) cynnwys unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol gysylltiedig arall y mae'r bwrdd yn eu hystyried yn briodol.

(4) Rhaid i ddadansoddiad y cyfeirir ato yn is-adran (3)—

(a) cyfeirio at unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 10;

(b) cyfeirio at adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol o dan adran 11 i'r graddau y mae'n berthnasol i asesu llesiant yn yr ardal.

(5) Mae'r ardaloedd r cymunedol sy'n ffurfio ardal bwrdd i'w pennu—

(a) yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, neu

(b) os nad oes rheoliadau o'r fath wedi eu gwneud, gan y bwrdd.

(6) Caiff y dadansoddiad y cyfeirir ato yn is-adran (3)(c) gynnwys dadansoddiadau o gategorïau penodol o bersonau y penderfyna'r bwrdd arnynt drwy gyfeirio at—

(a) y ffaith bod personau'n hyglwyf neu o dan anfantais fel arall am yr un rhesymau neu am resymau tebyg;

(b) bod y personau'n meddu ar nodwedd warchodedig gyffredin o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15);

(c) bod y personau'n blant (personau o dan 18 oed);

(d) bod y personau'n bobl ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) fel y'u disgrifir yn adran 104 o'r Ddeddf honno;

(e) a yw'r personau—

(i) yn bersonau y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth (fel y'u disgrifir yn Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)); neu

(ii) yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chymorth i bersonau y gallai fod ei angen arnynt;

(f) unrhyw ffactor cyffredin arall y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn briodol wrth ddisgrifio categori o bersonau.

(7) Rhaid i bob bwrdd anfon copi o'i asesiad at—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) y Comisiynydd;

(c) Archwilydd Cyffredinol Cymru;

(d) pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 37 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/02/2016. Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn ddilys ar gyfer y pwynt hwn mewn amser.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 37.